

## PRIFYSGOL BANGOR

### PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

**Cyfarfod:** 30 Ionawr 2019

**Presennol:** Yr Athro G Roberts (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mr D Davies, Mrs T Hibbert, Mr A Jones, Dr J Latchford, Mr G Parry, Mr D Owen, Miss E Riches, Dr H Roberts, Mrs J Roberts, Mr S Roberts, Yr Athro C Tully, Mrs E Parry Williams, Mr T Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd)

**Ymddiheuriadau:** Dr L Jones, Dr L Murphy, Yr Athro G Upton

**550. COFNODION**

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 24 Hydref 2018.

**551. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**552. CYFLWYNIAD GAN JOHN STEVENS (JS): YMGYNGHORYDD TRAWSNEWID A PERFFORMIAD**

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Trawsnewid a Pherfformiad gyflwyniad ar drefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer y Contractwr Rheoli Cyfleusterau Caled (FM) newydd a'r Gwasanaethau Eiddo a Champws (PACS). Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. Penodwyd cwmni Projectau Cyfalaf i reoli gwaith gwerth £250k ac uwch ar y rhaglen gyfalaf.
- ii. Mae cwmni Rheoli Cyfleusterau Caled (FM) wedi'i benodi i reoli gwaith cyfleusterau caled. Bydd y contractwr yn dechrau ym mis Mawrth 2019.
- iii. Caiff data sydd ar PLANON ar hyn o bryd eu trosglwyddo i MAXIMO, sef system rheoli meddalwedd y Contractwr FM newydd.
- iv. Bydd Desg Gymorth PACS yn gweithredu rhwng 8am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, gyda'r Contractwr FM yn darparu gwasanaeth y tu allan i'r oriau hynny.
- v. Darperir Adroddiadau Perfformiad bob mis a byddant yn cynnwys cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.
- vi. Nod yr ad-drefnu arfaethedig yn PACS fydd integreiddio cynnal a chadw cyffredinol, diogelwch a chyfleusterau a bydd yn cyd-fynd yn gliriach â'r trefniant gyda'r contractwr allanol newydd.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn pryd y codwyd y pwyntiau canlynol a / neu y rhoddwyd eglurhad pellach arnynt:

- i. Cadarnhawyd bod y data a drosglwyddir i MAXIMO yn eiddo i'r

Brifysgol a bydd yn cael ei drosglwyddo i'r Brifysgol ar ddiwedd cyfnod y contract.

- ii. Rhoddwyd eglurhad ar derminoleg a'r defnydd o 'ddiffyg cydymffurfio', sy'n awgrymu gofynion cyfreithiol, a nodwyd y bydd y Contract newydd yn cyflwyno safon perfformiad uwch nag a weithredir ar hyn o bryd ac y bydd yn bodloni gwahanol ofynion cyfreithiol. Cadarnhawyd y bydd y safonau perfformiad newydd yn bodloni gofynion deddfwriaethol a chanllawiau diwydiannol eraill, megis Safonau Prydeinig.
- iii. Cadarnhawyd y bydd cyfrifoldebau'r Rheolwr Diogelwch a Chydymffurfiaeth yn cael eu cynnwys yn swyddogaeth y Rheolwr Cyflawni Contractau newydd. Mae hyn mewn perthynas â'r Contractwr FM a gweithgareddau mewnol PACS.
- iv. Mae trafodaethau ar y gweill i sicrhau y bydd gofynion cael Desg Gymorth ddwyieithog yn cael eu cyflawni.
- v. Ar hyn o bryd mae'r Contractwr FM yn dadansoddi ac archwilio data PLANON fel rhan o broses i sicrhau bod data cywir a chyflawn yn cael ei drosglwyddo i MAXIMO ac i sicrhau na chollir data iechyd a diogelwch allweddol.
- vi. Penodwyd y Contractwr FM o Fframwaith Cenedlaethol a gymeradwywyd gan Swyddfa Llywodraeth Cymru gyda dau o'r chwe chwmni fframwaith yn tendro. Cafodd y ddau sgôr uwch na'r gofynion sylfaenol ar iechyd a diogelwch. Mae adroddiad ar gael gan y Dirprwy Gyfarwyddwr (Caffael a Thaliadau). **GWEITHREDU: JS i ddarparu'r adroddiad i'r Pwyllgor**
- vii. Gofynnwyd i swyddogaethau PACS perthnasol gyflwyno Asesiadau Risg i roi sylw i newidiadau mewn arferion gweithio sy'n deillio o'r Contract FM. Bydd y Contractwr FM yn gyfrifol am asesiadau risg ar gyfer eu gweithgareddau gwaith.
- viii. Cadarnhawyd bod rhaid i gontractwyr sy'n gysylltiedig â'r Contract FM fynd i gyfarfodydd Cynefino priodol (Cyffredinol, Diogelwch Labordai, Neuaddau) cyn dechrau unrhyw waith yn y Brifysgol. Mynegwyd pryder am yr oedi ynghylch hyn gyda chontractwyr yn dechrau ym mis Mawrth. **GWEITHREDU: JS i gadarnhau trefniadau Cynefino gyda'r Contractwr FM**

553.

### **DATGANIAD POLISI IECHYD A DIOGELWCH Y BRIFYSGOL**

Bob tair blynedd mae Datganiad Cyffredinol Iechyd a Diogelwch y Brifysgol yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas ac yn effeithiol.

Dosbarthwyd Datganiad Polisi diwygiedig drafft, gyda mân newidiadau technegol a chyflwyno ymrwymadau ac amcanion cynhwysedd newydd, i aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch i ddibenion ymgynghori ym mis Rhagfyr 2018 gan ofyn am sylwadau ac awgrymiadau arno erbyn 14 Ionawr 2019. Mae'r newidiadau amlycaf yn (v.) a (xvi.):

- v. Galluogi a hyrwyddo cynhwysedd a diogelu'r rhai ag anghenion

ychwanegol.

- xvi. Defnyddio asesiadau a rheolaethau risg iechyd a diogelwch i hyrwyddo cynhwysedd a chefnogi addasiadau rhesymol sydd, lle mae hynny'n ymarferol resymol, yn galluogi rhai ag anghenion ychwanegol i gymryd rhan a'u diogelu.

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau neu awgrymiadau gan aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Bydd y Datganiad Polisi yn awr yn mynd ymlaen i Gyngor y Brifysgol i'w gymeradwyo, a'i fabwysiadu wedyn.

## **554. ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU:**

### **554(a) Adroddiad Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydredd**

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 22 Ionawr 2019 a nodwyd yr eitemau allweddol a ganlyn:

- i. Daeth Swyddog Diogelwch Laser y Brifysgol i gyfarfod yr Is-bwyllgor a rhoddodd grynodedb o'r math o waith laser a wneir ar hyn o bryd.
- ii. *Gweithio gyda Ffynonellau Agored:* Yn 2018, ni ddefnyddiwyd yr elfen ymbelydrol <sup>125</sup>I. Cynyddodd defnydd o <sup>32</sup>P o ganlyniad i waith ym maes ymchwil canser.
- iii. Mae'r labordy ECW yn parhau i fod y labordy ymbelydredd prysuraf. Mae angen brys am le ychwanegol ar gyfer nifer y samplau a gynhyrchir gan sicrhau yr un pryd bod lle gweithio digonol ar feinciau gwaith.
- iv. *Stociau:* Gwnaed nifer o wiriadau stoc yn 2018. Ym mhob achos canfuwyd bod stociau yn y lle cywir gyda'r cofnodion gofynnol wedi eu cadw. Nodwyd, ar adegau, bod y stoc cyfunol ar gyfer isotopau sylffwr a ffosfforws wedi cyrraedd 80% - 90% o'r terfyn a ganiateir ac felly gwneir cais i Adnoddau Naturiol Cymru (NRW) i godi'r terfyn hwn.
- v. *Radon:* Mae angen adolygu'r asesiad risg radon a gobeithir y bydd ymarfer bwrdd gwaith yn ddigonol yn y rhan fwyaf o achosion. Er mwyn goleuo'r asesiad risg, gofynnwyd i'r Gwasanaethau Eiddo a Champws (PACS) ddarparu gwybodaeth ynghylch newidiadau defnydd mewn unrhyw adeiladau neu newidiadau adeileddol yn effeithio ar wresogi neu awyru a allai gael effaith ar grynodiadau radon. Unwaith y derbynir y wybodaeth hon, gwneir asesiad yn erbyn canlyniadau radon blaenorol er mwyn nodi adeiladau lle mae angen mesur crynodiadau radon.
- vi. *Arolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwrthderfysgaeth Cymru:* Bu'r arolygiad blynyddol o'r 'ffynhonnell wedi'i selio' yn llwyddiannus gyda sgôr o '0', sy'n golygu nad oedd unrhyw faterion angen sylw.
- vii. *Ymweliad Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd (RPA):* Ymwelodd yr RPA â'r cyfleuster Radiograffeg yn Wrecsam i gadarnhau addasrwydd trefniadau rheoli pelydr-X yn yr Ysgol. Yn ogystal, rhoddodd yr RPA ddau gwrs hyfforddiant gloywi i Oruchwylwyr Amddiffyn rhag Ymbelydredd (RPSs): un wedi'i anelu at RPSs sy'n gweithio gyda phelydrau-X, a'r llall ar gyfer RPSs sy'n gweithio gyda ffynonellau agored.

- viii. *Contractwr Rheoli Cyfleusterau Caled (FM)*: Mynegwyd pryderon ynghylch penodi'r Contractwr FM newydd a phwysigrwydd sicrhau y cyflwynir y wybodaeth gywir ynglŷn â risgiau, rheolaethau a safonau. Cydnabuwyd bod cefnogaeth staff PACS a'u gwybodaeth leol wedi bod yn allweddol. Gofynnir am sicrwydd ynghylch sut y caiff gwybodaeth am beryglon allweddol ei hymgorffori a'i rholi yn y trefniadau newydd.

**554(b)**

### **Adroddiad yr Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol**

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 17 Ionawr 2019. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. *Ymweliad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)*: Archwiliodd y Swyddog Cydymffurfiaeth Rheoleiddiol a'r Arolygydd HSE Arbenigol fannau GMO ar 28 Mawrth 2018 a dim ond mân faterion a godwyd. Mae'r Ystafell Tyfu Planhigion bellach wedi symud i gyfleuster newydd yn Thoday. Mae pob Aseiad Risg GMO wedi'i ddiweddarau yn ôl yr angen.
- ii. *Adolygiad Bioberyglon*: Cynhaliwyd dau adolygiad o Gyfleusterau GMO / Dosbarth 2 yn 2018. Nodwyd y daeth i'r amlwg ym mis Rhagfyr nad oedd y safonau mewn rhai manau mor uchel â'r rhai a gafwyd yn flaenorol. Roedd yr manau dan sylw'n dal i gyrraedd y safonau sylfaenol ar gyfer cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ond roeddent yn syrthio'n brin o safonau mewnol. Roedd y rhan fwyaf o faterion yn ymwneud â diffygion cymhennu a methu â chadw cofnodion llawn am ddiheintio. Bwriedir cynnal adolygiad pellach yn Chwefror 2019 i edych a yw camau gweithredu wedi cael eu cyflawni.
- iii. *Goruchwyllo Iechyd*: Darparwyd dogfen yn ymwneud â threfniadau cyfredol y Brifysgol ar oruchwyllo iechyd, a sefydlwyd yn unol â gofynion deddfwriaethol neu'n seiliedig ar broses asesu risg. Mae'r rhan fwyaf o'r goruchwyllo'n ymwneud â ffactorau resbiradol neu ddirgryniad dwylo/breichiau. Nodwyd y bydd y galw am oruchwyllo'n cynyddu oherwydd y cynnydd mewn gwaith yn ymwneud ag anifeiliaid.
- iv. *Nadroedd*: Mae cynlluniau i gynyddu'r amrywiaeth o nadroedd gwenwynig a gedwir ac i ddechrau rhaglen fridio. Ni fydd unrhyw gynydd sylweddol yn niferoedd y nadroedd a gedwir.
- v. *Gwasanaethau Eiddo a Champws (PACS)*: Mynegwyd pryder ynglŷn â phenodi'r Contractwr FM newydd a'r posibilrwydd o golli adegau profi / archwilio / cynnal a chadw eitemau allweddol o beiriannau a chyfarpar. Gofynnwyd am i staff gael eu atgoffa i fod ar eu gwyliadwriaeth ac i fonitro peiriannau ac offer etc. yn lleol er mwyn sicrhau y cedwir at gyfnodau profi / archwilio / cynnal a chadw.

**555.**

### **GRŴP TASG IECHYD A DIOGELWCH**

Mae'r grŵp tasg wedi cyfarfod ddwywaith ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Nodwyd yr eitemau allweddol a ganlyn yn y cyfarfodydd

hynny:

- i. *Adolygiadau Polisi:* Yn unol â'r Rhestr Polisiâu a Adolygwyd, trafodwyd a chytunwyd ar nifer o Safonau Polisi diwygiedig (Asesiad Risg, Diogelwch Offer Trydanol, Gweithio y Tu Allan i Oriau Arferol a Mamau Newydd a Merched Beichiog). Mae'r diwygiadau'n cynnwys mân newidiadau a newidiadau technegol a therminoleg. Yn ogystal, cytunwyd ar newidiadau i'r Polisi Awyrennau Bach Di-griw (Dronau) a ddiwygiwyd yng ngoleuni newidiadau gan yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) ac a fydd yn awr yn caniatáu i 'Beilotiaid' dronau na chymeradwywyd gan y CAA ddefnyddio dronau ar gyfer gweithgareddau anfasnachol yn ymwneud â'r Brifysgol.
- ii. *Hyfforddiant i Staff Uwch:* Trefnir hyfforddiant yn ystod y semester nesaf. Mae darparwr cyrsiau arall yn cael ei ystyried.
- iii. *Cyngor ar Deithio Tramor:* Cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol gyda'r darparwr newydd sy'n rhoi Cyngor ar Deithio Tramor ac yswirwyr y Brifysgol, UMAL, i drafod goblygiadau'r newid. Mae UMAL ar hyn o bryd yn ystyried y cais i uwchraddio o'r fersiwn 'Traveller' sylfaenol i'r 'Travel Pro' a fydd yn cynnig gwasanaeth i staff a myfyrwyr tebyg i ddarpariaeth yr un a oedd yn darparu cyngor ar deithio o'r blaen.
- iv. *Adroddiad Diogelwch Tân ac Asbestos (Diweddariad):* Derbyniwyd adroddiad diwygiedig i sicrhau'r Grŵp Tasg ynghylch y trefniadau a wnaed gan PACS i reoli asesiadau risg asbestos a tân.
- v. *Absenoldeb Salwch Ymysg Staff:* Ystyriwyd adroddiad ar berfformiad Absenoldeb Salwch Staff 17/18 y Brifysgol yn erbyn Addysg Uwch yn gyffredinol. Cafwyd trafodaeth wedyn pryd y nodwyd y pwyntiau canlynol:
  - Mae'r Grŵp Tasg nawr yn derbyn adroddiad chwarterol ar Absenoldeb Salwch, ac felly mae'n gallu asesu tueddiadau o fewn y flwyddyn yn well.
  - Mae Polisi Rheoli Absenoldeb diwygiedig yn disgwyl cael ei gyhoeddi. I gyd-fynd â hynny ceir hyfforddiant i reolwyr ac eraill fel bo'r angen, a dylai roi gwell cefnogaeth i staff.
  - Bwriedir i Raglen Gynorthwyo newydd i Weithwyr ddisodli'r ddarpariaeth gwnsela bresennol a bydd yn rhoi llawer mwy o gefnogaeth i staff.

556.

## UNRHYW FATERION ERAILL

Dim.

**Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch fel a ganlyn:**

**Dydd Mercher 5 Mehefin 2019, 2.30pm, Cledwyn 3**